COFNOD O BENDERFYNIADAU CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB / O BELL DRWY GYFRWNG TIMAU MICROSOFT DDYDD MAWRTH, 21 HYDREF 2025 AM 14:30

Presennol

Y Cynghorydd JC Spanswick – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| N Farr | J Gebbie | HM Williams | E L P Caparros |
| P Davies | M J Evans | M Jones | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Jake Morgan | Y Prif Weithredwr |
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Pherfformiad |
| Carys Lord | Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol – y Cymunedau |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, AD a Pholisi Corfforaethol |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Michael Pitman | Swyddog Cefnogi Technegol – y Gwasanaethau Democrataidd |
| Nimi Chandrasena | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Gaynor Thomas | Rheolwr Cynaladwy ar gyfer Dysgu, yr Adran Addysg |
| Martin Morgans | Pennaeth Gweithrediadau dros dro, y Gwasanaethau Cymunedol |
| Kelly Pardon | Swyddog Polisi Tai – SRS |

## 533. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 21 Hydref 2025 |

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

## 534. Datganiadau o Fuddiannau

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cafodd y datganiadau o fuddiannau canlynol eu gwneud:-<br><br>Y Cynghorydd Paul Davies – Buddiant Rhagfarnus yn Eitem 11 gan ei fod yn berchen ar eiddo oedd wedi ei gynnwys yng Nghynllun Prydlesu Llywodraeth Cymru<br><br>Fe wnaeth y Cynghorydd John Spanswick a'r Cynghorydd Neelo Farr ddatgan Buddiant Personol yn eitem 8 gan fod ganddynt berthnasau oedd yn yrwyr tacsi.<br><br>Fe wnaeth y Cynghorydd Paul Davies ddatgan Buddiant Personol gan fod ganddo drwydded tacsi ond nad oedd yn gweithio yn y maes hwn ar y pryd. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 21 Hydref 2025 |

## 535. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion y Cabinet dyddiedig 23 Medi 2025 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 21 Hydref 2025 |

## 536. Adolygu Polisi Diogelu Corfforaethol

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd adroddiad am y Polisi Diogelu Corfforaethol diwygiedig i'w gymeradwyo. Mae'r diweddariad yn cryfhau dau faes allweddol yn dilyn archwiliad mewnol:<br><br>• Gofynion hyfforddiant clir, yn cynnwys cwrs adnewyddu bob tair blynedd<br>• Protocol diogelu newydd ar gyfer contractwyr<br><br>Roedd y polisi ynghlwm yn atodiad 1 yr adroddiad |

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

| | |
|---|---|
| | Gofynnwyd am gadarnhad bod staff yn ymroi i'r hyfforddiant oedd yn berthnasol i'w swydd gan y nodwyd yn yr adroddiad mai 85.77% oedd y ffigur ar hyn o bryd. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod 100% yn anodd ei gyflawni gan fod yna staff newydd, absenoldeb mamolaeth a salwch i'w hystyried, ond bod yr holl staff yn gweithio i ddod mor agos â phosibl at gwblhau'r holl hyfforddiant a bod hyn yn cael ei fonitro'n fanwl.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Polisi Diogelu Corfforaethol wedi ei ddiweddaru oedd ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 21 Hydref 2025 |

**537. Argymhelliad Craffu gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu y Cymunedau, yr Amgylchedd a Thai**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu y Cymunedau, yr Amgylchedd a Thai adroddiad oedd yn gofyn am gymeradwyaeth i argymhelliad gan y Pwyllgor ynghylch Trosglwyddo Asedau Cymunedol.<br><br>Bu'r Pwyllgor yn trafod y cynnydd sylweddol a gynigiwyd o'r blaen yn y taliadau am gael defnyddio caeau a chyfleusterau chwaraeon sy'n eiddo i'r Cyngor ac argymhellodd fod y Cabinet yn ystyried a yw'r polisi'n dal yn gywir ac yn addas i'r diben yn yr hinsawdd ariannol bresennol a bod Grŵp Archwilio Dwfn Cyfarwyddiaeth y Cymunedau yn edrych i mewn i'r polisi o godi tâl.<br><br>Codwyd y pwyntiau a ganlyn gan Aelodau'r Cabinet:<br><br>• Problem tegwch rhwng y grwpiau oedd wedi ymgymryd â Throsglwyddo Asedau Cymunedol a'r rhai nad oeddent.<br>• Sibrydion am gynnydd o 500%.<br><br>Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau fod y Swyddogion yn ymrwymedig i adolygu'r polisi a chymryd yr argymhellion Craffu i ystyriaeth ac y byddent yn cyflwyno adroddiad i'r Cabinet maes o law.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet wedi ystyried ac yn ymateb i argymhelliad Pwyllgor Trosolwg a Chraffu y Cymunedau, yr Amgylchedd a Thai fel a ganlyn:- |

| | |
|---|---|
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 21 Hydref 2025 |

## 538. Asesiad Perfformiad y Panel

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad oedd yn hysbysu'r Cabinet am ganfyddiadau Asesiad Perfformiad y Panel a gynhaliwyd rhwng 16-19 Medi 2025 a gofynnodd am gymeradwyaeth ar gyfer camau nesaf y broses.<br><br>Ar ddiwedd wythnos y cyfoedion ar y safle, fe wnaethant roi cyflwyniad ynghylch eu canfyddiadau oedd yn mynd i'r afael â'r tri gofyniad perfformiad a'r tri maes ffocws a ddarparwyd gennym. Ers hynny, mae eu hadroddiad terfynol wedi cael ei dderbyn gan y Cyngor. Mae'r adroddiad wedi ei gynnwys yn Atodiad 1 a'r cyflwyniad yn Atodiad 2.<br><br>Dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd aros yr un fath yn ddewis mewn gwirionedd a bod yr argymhellion yn golygu symud "yn gyflym," gyda'r disgwyliad y ceid cynigion penodol ar gyfer cyfarfod y cyngor ym mis Tachwedd.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet -<br><br>• Wedi ystyried canfyddiadau Asesiad Perfformiad y Panel y manylwyd arnynt yn Atodiad 1 ac Atodiad 2 yr adroddiad.<br>• Yn cymeradwyo'r camau nesaf wrth ymateb i Asesiad Perfformiad y Panel ym mharagraffau 3.6, 3.7 a 3.8 yr adroddiad. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 21 Hydref 2025 |

## 539. Hunanasesiad 2024/25

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad adroddiad oedd yn gofyn i'r Cabinet gefnogi ac argymell i'r Cyngor yr hunanasesiad am 2024/25 oedd wedi ei gynnwys yn Atodiad 1 a'r wybodaeth gysylltiedig am berfformiad yn Atodiad 2.<br><br>Tynnodd sylw at y tabl yn 3.8 o'r adroddiad oedd yn dangos y dyfarniadau ar gyfer 2024/25 gan ddefnyddio'r statws Coch, Ambr, Melyn, Gwyrdd (RAYG). |

| | |
|---|---|
| | Nododd rai llwyddiannau trawiadol oedd yn cynnwys gwelliannau sylweddol yn y Gwasanaethau Plant, agor Neuadd y Dref Maesteg, tri thraeth Baner Las a bod y gorau yng Nghymru am ailgylchu (73%).<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet wedi ystyried adroddiad yr Hunanasesiad drafft am 2024/25 yn Atodiad 1, fel y'i cefnogwyd gan y wybodaeth am berfformiad yn Atodiad 2 yr adroddiad, ac yn cymeradwyo ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 21 Hydref 2025 |

## 540. Mynediad i Ganol Tref Pen-y-bont at Ogwr

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Adfywio, Datblygu Economaidd a Thai adroddiad oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am brosiect Mynediad i Ganol Tref Pen-y-bont ar Ogwr, yn dilyn galw i mewn y penderfyniad wnaed gan y Cabinet ar 23 Medi 2025.<br><br>Yn dilyn eu cyfarfod eithriadol ar 3 Hydref 2025, gofynnodd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu y Cymunedau, yr Amgylchedd a Thai am gymeradwyaeth i gyflwyno Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Arbrofol (ETRO) 18 mis yn cynnwys y mesurau canlynol:<br><br>• mwy o hyblygrwydd ar gyfer llwytho a dadlwytho;<br>• eithriadau ychwanegol i'r Gorchmynion Rheoleiddio Traffig (TRO) presennol pan fydd y bolardiau amddiffynnol wedi eu codi;<br>• mynediad gwell a pharcio diogel ar gyfer beicio; a<br>• darpariaeth parcio Bathodyn Glas estynedig ar Heol Derwen<br><br>Cydnabu'r Arweinydd na thynnwyd sylw yn yr adroddiad at y 56% o'r ymatebwyr yn yr astudiaeth oedd yn cefnogi ailgyflwyno traffig a gofynnodd am gywiro hyn.<br><br>Awgrymodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau welliant i ganiatáu mynediad i dacsis i ganol y dref fel rhan o'r ETRO, yn amodol ar archwiliad diogelwch.<br><br>Awgrymodd y Dirprwy Arweinydd welliant i argymhelliad 9.3 (awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol i addasu neu ddirymu'r gorchymyn). Mae'r gwelliant yn sicrhau bod yr awdurdod hwn yn cael ei arfer "mewn ymgynghoriad ag aelod y cabinet". |

| | |
|---|---|
| | Derbyniwyd y ddau welliant.<br><br>Awgrymodd Aelodau'r Cabinet hefyd y gellid casglu mwy o ddata ar ôl yr ETRO ar ei lwyddiant neu ddiffyg llwyddiant, ac y gellid gwneud gwelliannau pellach yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid oedd cyflwyno traffig yn llawn ar hyn o bryd yn addas oherwydd diffyg data, a byddai mesurau llai dros dro er mwyn casglu'r data hwn yn fwy addas.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:-<br><br>1. Yn nodi pryderon Pwyllgor Trosolwg a Chraffu y Cymunedau, yr Amgylchedd a Thai yn dilyn penderfyniad 4 Aelod Craffu a Chadeirydd Craffu i alw i mewn benderfyniad y Cabinet ynglŷn â Mynediad i Ganol Tref Pen-y-bont ar Ogwr fel yr amlinellwyd ym mharagraff 3.7 yr adroddiad;<br>2. Yn dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau mewn ymgynghoriad â'r Aelod perthnasol o'r Cabinet i wneud y canlynol:-<br><br>(i) ceisio ETRO 18 mis ar gyfer ymestyn oriau llwytho a dadlwytho hyd at 11:00 a'i ailgychwyn ar ôl 16:00, gyda hyblygrwydd ychwanegol yn cael ei ganiatáu ar gyfer sefyllfaoedd a digwyddiadau brys;<br>(ii) ceisio ETRO 18 mis i ganiatáu beicio o fewn yr ardal i gerddwyr, yn amodol ar gwblhau'r asesiadau risg diogelwch yn foddhaol;<br>(iii) ceisio ETRO 18 mis ar gyfer trosi baeau tacsi sydd heb eu defnyddio'n ddigonol ar Heol Derwen yn faeau parcio Bathodyn Glas.<br><br>3. Yn dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau i wneud trefniadau ar gyfer monitro a gwerthuso’r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Arbrofol (ETRO) ac addasu, atal dros dro neu dynnu’r Gorchymyn yn ôl pe bai angen, yn ystod cyfnod yr arbrawf.<br>4. Yn dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau, mewn ymgynghoriad â’r Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, AD a Pholisi Corfforaethol, i gyflwyno a derbyn cyllid allanol, dyfarnu a sefydlu contractau, cytundebau a dogfennaeth gyfreithiol arall ar ran y Cyngor fel sy’n angenrheidiol i gyflawni’r mesurau.<br>5. Yn ystod cyfnod yr ETRO, adolygu’r system weithredu bolardiau ar gyfer canol y dref.<br>6. Yn dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau i symud ymlaen gyda’r gwaith o ystyried mynediad a lle parcio newydd i’r rhai sy’n dal bathodyn glas ar hyd Stryd y Frenhines, Dunraven Place a Stryd y Farchnad ochr yn ochr â gweithredu’r ETRO.<br>7. Yn dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau i symud ymlaen gyda’r gwaith o ystyried galluogi mwy o gerbydau i gael mynediad ar hyd Stryd y Frenhines, Dunraven Place a Stryd y Farchnad ochr yn ochr â gweithredu’r ETRO |

| | |
|---|---|
| | 8. Yn nodi y cyflwynir adroddiadau pellach i'r Cabinet yn cynnig safbwynt parhaol o ran y Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol (ETRO) ac ar Brosiectau Prif Gynllun Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr.<br>9. Cynigiodd aelodau'r Cabinet argymhelliad pellach i ddirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau i wneud gwaith pellach i ganiatáu mynediad i yrwyr tacsi ochr yn ochr â gweithredu'r ETRO. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 21 Hydref 2025 |

**541. Ailsefydlu Gwasanaeth Bws drwy Mawdlam/Pwll Cynffig**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Gofynnodd Aelod y Cabinet dros Adfywio, Datblygu Economaidd a Thai am gymeradwyaeth i addasu Contract y Llwybrau Bysiau Cyhoeddus â Chymorth ar gyfer Gwasanaeth Rhif 63 Pen-y-bont ar Ogwr i Borthcawl, er mwyn adfer gwasanaeth bysiau drwy Fawdlam/Pwll Cynffig, a ddaeth i ben ym mis Awst 2019.<br><br>Roedd y cynnig yn golygu addasu'r Gwasanaeth 63 presennol (Pen-y-bont ar Ogwr-Porthcawl) i ddargyfeirio un bws yr awr drwy'r ardal.<br><br>Mae'r gost (£64,566) wedi ei thalu drwy grant Llywodraeth Cymru, gan arwain at "ddim cost ychwanegol" i'r cyngor.<br><br>Gofynnodd Aelod y Cabinet dros Adnoddau pa fesurau lliniaru oedd ar waith i atal y gwasanaeth rhag cael ei ddiddymu eto. Esboniodd Aelod y Cabinet dros Adfywio, Datblygu Economaidd a Thai y bydd Cymru, erbyn 2029, yn symud i system fysiau masnachfraint o dan "un rhwydwaith, un amserlen, un tocyn," fydd yn anelu at ddarparu gwasanaeth mwy dibynadwy.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:<br><br>• Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo addasu'r contract presennol ar gyfer Gwasanaeth Rhif 63;<br>• Yn dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau, mewn ymgynghoriad â Phennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151 a Phrif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol, i gytuno ar delerau a llofnodi unrhyw ddogfennau neu weithredoedd sy'n angenrheidiol i roi'r addasiad ar waith. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 21 Hydref 2025 |

542. **Monitro Cylllideb 2025-26 – Rhagolwg Refeniw Chwarter 2**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad adroddiad oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am sefyllfa ariannol refeniw'r Cyngor ar 30 Medi 2025.<br><br>Dywedodd fod Tabl 1 yn darparu cymhariaeth rhwng y gyllideb a'r alldro rhagamcanedig ar 30 Medi 2025, tra roedd Tabl 2 yn tynnu sylw at y Gostyngiadau yn y Gyllideb ar gyfer 2025-26.<br><br>Nododd fod yr adroddiad yn cyfeirio at *danwariant* net rhagamcanedig o £5.9 miliwn. Fodd bynnag, nodwyd hyn "yn bennaf oherwydd derbyn nifer o grantiau gan Lywodraeth Cymru". Roedd pwysau'n parhau ar gyllidebau sylfaenol, gyda'r cyfarwyddiaethau yn rhagweld gorwariant o £453,000.<br><br>Gofynnodd Aelod o'r Cabinet pa mor gadarn oedd y rhagamcan, o ystyried diffyg o 10% wrth gyflawni arbedion a gynlluniwyd, ac atebwyd gan y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet yn nodi'r sefyllfa ariannol a ragwelid ar gyfer 2025-26. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 21 Hydref 2025 |

**543. Strategaeth Cartrefi Gwag 2025-2030**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Adfywio, Datblygu Economaidd a Thai adroddiad oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer Strategaeth Cartrefi Gwag 2025-2030 oedd ynghlwm fel Atodiad A.<br><br>Mae'r strategaeth 5 mlynedd newydd yn canolbwyntio ar ymgysylltu cynnar, cymorth ariannol, a gorfodi cryfach er mwyn adfer defnydd cartrefi gwag.<br><br>Trafodwyd y pwyntiau canlynol:<br>• Nid yw'r strategaeth yn cynnwys eiddo masnachol, ond eiddo preswyl yn unig.<br>• Y premiwm treth gyngor o 300% ar eiddo gwag a'r rhesymeg<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet yn cymeradwyo Strategaeth Cartrefi Gwag 2025-2030 |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 21 Hydref 2025 |

## 544. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Nid oedd dim eitemau brys |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 21 Hydref 2025 |

## 545. Gwahardd y Cyhoedd

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD: Nid yw'r eitem ganlynol i'w chyhoeddi gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 o Ran 4 a Pharagraff 21 o Ran 5, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007.<br><br>Yn dilyn cymhwyso prawf budd y cyhoedd, penderfynodd y Cabinet, yn unol â'r Ddeddf, ystyried yr eitem hon yn breifat, ac felly cytunodd i'r cyhoedd gael eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod yr ystyriaeth honno. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 21 Hydref 2025 |

## 546. Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Darpariaeth Uwchradd Gyfrwng Cymraeg

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Gan fod hon yn eitem eithriedig mae penderfyniad yr adroddiad yn gyfrinachol ac nid yw ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 21 Hydref 2025 |

I wylio dadl bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen link
on

Daeth y cyfarfod i ben am 17:30.

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**